



Ein cyf: WQ93262

Siân Gwenllian AS  
Aelod o'r Senedd dros Arfon

[Sian.Gwenllian@senedd.cymru](mailto:Sian.Gwenllian@senedd.cymru)

3 Gorffennaf 2024

Annwyl Siân,

Rwy'n ateb eich cwestiwn ysgrifenedig:

"Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cyfanswm y camesgoriadau, a'r gyfradd camesgoriad yng Nghymru?"

Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu nac yn cadw data ar gamesgoriadau. Nid yw data ar gamesgoriadau'n cael ei gasglu'n ganolog ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Mae [Cronfa Ddata Episodau Cleifion Cymru \(PEDW\)](#) a ddelir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cofnodi gweithgaredd mewn ysbytai drwy'r brif ddiagnosis a thrwy'r brif weithdrefn a ddilynir. Bydd y set ddata hon yn cynnwys yr achosion lle mae menywod wedi cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gamesgoriad. Ni fydd hyn yn cynnwys achosion lle mae menywod wedi profi camesgoriad ac nad ydynt wedi cael eu derbyn i ysbyty na derbyn gofal cleifion allanol.

Mae elusen [Tommy's](#) yn amcangyfrif ystadegau camesgoriad ar gyfer y DU gyfan ac mae data o'r PEDW yn cael ei ddefnyddio wrth lunio'r amcangyfrif hwn.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Care